**Atebion**

# Crwn a lliwgar ...?

Dyma'r atebion i'r cwestiynau ar y brif sgrin:

**Sleid 1:** Adeiladau Japaneaidd ydyn nhw.
**Sleid 2:** Dillad Japaneaidd ydyn nhw a phlant Japaneaidd sydd yn y llun.
**Sleid 3:** Garanod ydy'r adar yma. Yn Japan, maen nhw'n symbol o lwc a bywyd hir. Yn ôl y traddodiad Japaneaidd, mae rhai'n gallu byw am fil o flynyddoedd.
**Sleid 4:** Blodau ar goed ceirios yw'r rhain – mae llawer ohonyn nhw yn Japan yn y gwanwyn.



**Beth sydd o gwmpas y pethau crwn?** Teils a sment.

**Ble maen nhw wedi eu gosod?** Ar y ddaear.

**Beth ydyn nhw?** Dyma gliw arall i chi. Mae rhai pobl yn codi'r pethau hyn er mwyn gallu cerdded i mewn i'r twll sydd o danyn nhw – a mynd i lawr i'r system ddraeniau o dan y ddaear.

**Beth ydyn nhw felly?**

**Caeadau manolau –** neu, yn yr unigol, **caead manol –** yn Japan

| Geirfa | | |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | **Diffiniad** | **Saesneg** |
| garanod | lluosog **garan**; adar mawr – mae ganddyn nhw goesau, gyddfau a phig hir. | cranes |